| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **9 CHWEFROR 2015** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO –<br>MIRAGE, 360 STRYD FAWR, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**MANYLION Y CAIS**

Derbyniwyd cais am drwydded eiddo ar gyfer Mirage, 360 Stryd Fawr, Bangor oddi wrth Mr Owen Maguire drwy ei asiant Ms Gilly Harradence o Tudor Owen Roberts Glynne & Co Cyfreithwyr, 6-8 Stanley Street, Holyhead.

Roedd trwydded eiddo yn bodoli ar gyfer y cyfeiriad yma o'r blaen pan oedd yn glwb nos. Cafodd y drwydded flaenorol ei ildio yn 2011. Yn y cais mae'r ymgeisydd yn disgrifio ei fwriad i newid yr eiddo i far cabaret/thema ar gyfer pobl dros 25 sy'n darparu gwahanol themâu a digwyddiadau gyda'r nos a dosbarthiadau ymarfer corff a dawnsio gyda'r dydd.

Mae'r gweithgareddau trwyddedadwy ymgeisiwyd amdano yn cynnwys pob math o adloniant wedi'i reoleiddio (i ddigwydd dan do); darparu lluniaeth hwyr y nos (i ddigwydd dan do) a chyflenwi alcohol (i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo). Amgaeir copi o hysbyseb y cais yn Atodiad 1.

Yn ystod y cyfnod derbyn sylwadau, ar ôl ymgynghori â Heddlu Gogledd Cymru, gwnaeth yr ymgeisydd, drwy Heddlu Gogledd Cymru, cyflwyno ffurflen gais diwygiedig gyda llai o oriau. Amgaeir copi o'r ffurflen gais diwygiedig fel Atodiad 2.

Yn adran M o'r cais, mae'r ymgeisydd yn disgrifio'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. Maent yn cynnwys y defnydd o gamerâu teledu cylch cyfyng, defnyddio staff drysau cofrestredig a gweithredu cynllun profi oedran.

**HYSBYSU'R CAIS**

O dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 mae'n ofynnol i ymgeiswyr arddangos hysbysiad y tu allan i'r eiddo am gyfnod o 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau o'r diwrnod ar ôl y diwrnod y cafodd y cais ei roi i'r awdurdod trwyddedu. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr hefyd i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol ar o leiaf un achlysur yn ystod y cyfnod o 10 diwrnod gwaith gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cafodd y cais ei roi i'r awdurdod trwyddedu.

Darganfodd Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd bod yr hysbysiad gofynnol yn cael ei arddangos ar yr eiddo gan ar 9 Ionawr 2015 a gyhoeddwyd hysbysiad papur newydd yn y papur newydd 'The Chronicle' ar ddydd Iau 18 Rhagfyr, 2014.

**SYLWADAU**

Derbyniwyd sylwadau perthnasol oddi wrth y partion isod:-

| | **Sylwadau** |
|---|---|
| Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd | Cynnwys amodau sŵn |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Dinas Bangor | Gwrthwynebiad |
| Jean Forsyth, Cynghorydd | Gwrthwynebiad |

Gwelir copïau o'r sylwadau yn Atodiad 3.

**Crynodeb o'r Sylwadau**
Dymunai'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd ychwanegu amodau sŵn i'r drwydded eiddo.

Does gan Heddlu Gogledd Cymru ddim tystiolaeth gyfredol i wrthwynebu'r cais.

Mae Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais ar y sail y byddai'n cynyddu sŵn ac aflonyddwch yn yr ardal; byddai'n creu materion trosedd ac anhrefn; annog ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn 'Pwynt Dirlawnder' wedi'i gyrraedd yn yr ardal yma o Fangor.

Mae Jean Forsyth, Cynghorydd ar gyfer Ward Hirael ym Mangor yn bryderus am amser cau'r eiddo a bod yr ymgeisydd wedi methu darparu gwybodaeth ddigonol yn eu cais mewn perthynas â'r adrannau canlynol

- **Adran H** - Darparu adloniant rheoledig "Unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg i'r hyn sy'n dod o fewn (e), (f) neu (g)" - mae'r ymgeisydd wedi methu â darparu disgrifiad o'r math o adloniant byddant yn cael eu darparu.
- **Adran J** - Cyflenwi alcohol - mae'r ymgeisydd wedi nodi 'y ddau' fel bod y cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo. Mae Cynghorydd Forsyth yn bryderus ynghylch y posibilrwydd bydd unigolion yn prynu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo hyd at 03:00.
- **Adran K** – Mae Cynghorydd Forsyth yn pryderus nad yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o wybodaeth i ddisgrifio'r math o adloniant neu wasanaethau i oedolion y maent yn bwriadu cynnal hyd at 11 gwaith y flwyddyn.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r is-bwyllgor i ystyried y cais am drwydded eiddo yn unol ag amcanion y Ddeddf Trwyddedu 2003.